**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**YSGOL GYFUN GYMUNEDOL PENWEDDIG**

**Cefndir cryno ar gyfer y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

- Mae 660 disgybl yn yr ysgol
- Mae Penweddig yn rhannu dalgylch o 23 ysgol gynradd gydag Ysgol Penglais, sef yr ysgol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu dalgylch Aberystwyth
- Mae ychydig dros hanner o ddisgyblion yr ysgol yn dod o gartrefi lle siaredir dim neu ond ychydig o Gymraeg
- Mae proffil ieithyddol y corff rhieni yn adlewyrchu proffil ieithyddol y plant
- Mae'r canran o giniawau rhad yn isel (tua 3%)
- Polisi iaith a chwricwlwm yr ysgol:
    - Dysgir ac asesir Saesneg yn Saesneg
    - Dewisa'r disgyblion os ydynt am astudio a sefyll arholiadau mathemateg a gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
    - Dysgir ac asesir pob pwnc arall trwy gyfrwng y Gymraeg
- Dychwela canran uchel o tua 60-65% o ddisgyblion i'r chweched dosbarth
- Yn dilyn arholiadau safon uwch aiff cyfran uchel i ddilyn cyrsiau Addysg Uwch. Mae nifer sylweddol yn aros yng Nghymru (Caerdydd yn bennaf ar gyfer graddau cyffredinol yn ogystal â Choleg y Drindod, Caerfyrddin a Bangor). Aiff llawer ymlaen i brifysgolion Lloegr (rhai i'r Alban a'r Iwerddon) ac erbyn hyn derbyniodd y rhan fwyaf o sefydliadau AU Lloegr cyn-ddisgyblion Penweddig. Enillodd llif cyson o ddisgyblion leoedd yn Rhydychen a Chaergrawnt gan gynnwys mathemategwyr a gwyddonwyr a astudiodd y pynciau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol.
- Mae gan yr ysgol draddodiad o lwyddiant academaidd ardderchog. Atodir crynodeb, yn seiliedig ar ddata amrwd, o berfformiad yr ysgol yng nghyd-destun Cymru. Dengys y data bod canlyniadau disgyblion yr ysgol yn yr ugain ysgol orau yn gyson.
- Ymrwyma'r ysgol i ddarparu addysg gyflawn ar gyfer ei disgyblion. Gwêl yr ysgol rôl gyflenwol gref rhwng astudiaethau academaidd a rhaglen gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol. Medda'r ysgol ar draddodiad balch a nodedig mewn sawl maes gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, chwaraeon, y meysydd creadigol, gwaith gwirfoddol a dyniaethol.
- Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog benodedig sy'n rhoi pwyslais ar yr iaith Gymraeg a chynnal ethos Gymreig. Mae sefydlu hunaniaeth ddwyieithog gref yn darparu'r sail i ddatblygu ymagwedd agored ac eangfrydig. Cynigia'r ysgol bedair iaith yn ychwanegol at y Gymraeg a'r Saesneg: Ffrangeg, Almaeneg, Siapanaeg ac Eidaleg. Mae gan yr ysgol gysylltiadau â Llydaw, yr Almaen ac mae'n bartner blaenllaw mewn rhaglen

ddeuffordd gyda thref Kaya-cho yn Siapan. Mae’r rhaglen hon wedi cyflawni pump trefniant cyfnewid cyflawn ers 1992 ac fe elwodd y bobl ifanc yn fawr o’r profiad.

**Yr arholiadau a gynigir**

Blwyddyn 11:

Cynigir cyfuniad o gyrsiau TCA a TGAU i’r disgyblion gyda’r mwyafrif llethol sefyll arholiadau TGAU. Mewn llawer blwyddyn ymfalchïa’r ysgol yn y ffaith i bob disgybl blwyddyn 11 ennill cymhwyster allanol cydnabyddedig. Y cyrsiau TGAU a gynigir yw: Cymraeg (iaith a llên), Saesneg (iaith a llên), Ffrangeg, Almaeneg, mathemateg, gwyddoniaeth ddwbl, astudiaethau crefydd, daearyddiaeth, hanes, astudiaethau busnes, dylunio a thechnoleg, gwyddor cartref bwyd, celf, cerdd, addysg gorfforol a drama.

Cynigir rhai o’r pynciau TGAU hyn ar lefel TCA yn unol â gofynion disgyblion unigol. Hefyd, cynigir Technoleg Gwybodaeth ar safon TCA.

Cynigir un cwrs CGC (*NVQ)* mewn peirianneg i dechnegwyr trwy gyfrwng Cwmni Hyfforddiant allanol. Bydd pob un o’r disgyblion yn derbyn CGC lefel 1 gyda rhai yn ennill cymhwyster lefel 2 ag eithrio’r elfennau a seilir yn y gweithle. Ni fu’n bosib sicrhau’r cwrs hwn trwy gyfrwng y Gymraeg gan nad oes yna hyfforddwyr proffesiynol ar gael i wneud hynny.

Hefyd, mae yna graidd di-arholiad sy’n cynnwys addysg grefyddol, addysg gorfforol ac Addysg Bersonol, Iechyd a Chymdeithasol.

Blwyddyn 12 a 13

Mae yna ddarpariaeth o addysg grefyddol ac addysg gorfforol yn y ddwy flwyddyn a thechnoleg gwybodaeth ar gyfer blwyddyn 12.

Cynigir llu o gyfleoedd i ddisgyblion i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau a’u doniau: trefnu discos, yr Eisteddfod ysgol, mabolgampau’r ysgol, gweithgareddau codi arian tuag at achosion dyngarol (cesglir dros £3000 y flwyddyn), Menter i’r Ifanc a gwaith gwirfoddol ar ran DASH a CYD.

Cynigir dau gwrs CGCC (*GNVQ*) ar lefel ganolradd: astudiaethau busnes a gofal a iechyd. Cynigir y cyrsiau uwch gyfrannol (UG – *AS*) a safon uwch (lefel A) canlynol: Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, mathemateg (pedwar cyfuniad), bioleg, cemeg, ffiseg, astudiaethau crefydd, daearyddiaeth, hanes, astudiaethau busnes, dylunio a thechnoleg, gwyddor cartref bwyd, celf, cerdd, a

drama.

Cynigir cwrs TGAU mewn Eidaleg (mae disgyblion o flynyddoedd 9-11 yn y dosbarthiadau hyn hefyd) a chwrs Siapanaeg arbennig a achredir gan CBAC.

**YSGOL GYFUN GYMUNEDOL PENWEDDIG**

**PERFFORMIAD TGAU 1995 – 2000**

**Mae 229 ysgol uwchradd yng Nghymru. Fe welir o'r tablau isod pa mor dda oedd canlyniadau disgyblion Penweddig yn ystod y cyfnod 1995-2000.**

| Safle cenedlaethol allan o 229 ysgol | 1995 | 1996 | 1997 | 1998 | 1999 | 2000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| 5 TGAU A*-C cyfartaledd treigl | 19eg | 16eg | 10fed | 8fed | 10fed | 16eg |
| Sgôr cyfartalog y disgybl | - | - | - | 5ed | 6ed | 6ed |
| Dangosydd Craidd | - | - | - | 6ed | 14eg | 14eg |

**PERFFORMIAD SAFON UWCH**

**Mae 167 ysgol uwchradd yn cynig safon uwch yngNghymru. Fe welir o'r tabl isod pa mor dda oedd canlyniadau disgyblion Penweddig yn ystod y cyfnod 1995-2000.**

| **Safle cenedlaethol allan o 167 ysgol** | **1995** | **1996** | **1997** | **1998** | **1999** | **2000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| **Sgor cyfartaolg treigl pob disgybl** | **14eg** | **9fed** | **4ydd** | **4ydd** | **5ed** | **16eg** |